# Adroddiad perfformiad amgylcheddol blynyddol ar gyfer Hafren Dyfrdwy 2024

## Cyflwyniad

Ein diben yw sicrhau rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion, a phridd Cymru i wella llesiant a sicrhau dyfodol gwell i bawb.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn monitro perfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr i helpu i leihau effaith eu gweithrediadau ar yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn cynnwys olrhain digwyddiadau llygredd, asesu cydymffurfedd â hawlenni a thrwyddedau, a goruchwylio cyflawniad cynlluniau gwella.

Yn ein rôl fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn gyfrifol am ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif o ran cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol a'u cyfrifoldebau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys gwirio cydymffurfedd a goruchwylio i weld a ydynt yn cyflawni dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

Sefydlwyd Hafren Dyfrdwy Cyfyngedig ar 1 Gorffennaf 2018, gan ffurfio cwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfan gwbl o fewn ffin wleidyddol Cymru.

Cafodd yr holl asedau a oedd yn eiddo i Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yng Nghymru yn flaenorol, ac a oedd yn cael eu rheoli ganddynt, eu trosglwyddo i Hafren Dyfrdwy. Yr unig eithriad yw gweithfeydd trin dŵr Dyffryn Elan, a fydd yn parhau i fod yn eiddo i Severn Trent Water ac yn cael ei reoli ganddo er eu bod wedi'u lleoli yng Nghymru. Byddwn yn rheoleiddio'r gollyngiad hwn a ganiateir ac yn darparu data perfformiad amgylcheddol i Asiantaeth yr Amgylchedd, fel y gellir ei gynnwys yn adroddiadau Severn Trent Water.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar berfformiad amgylcheddol Hafren Dyfrdwy ar gyfer 2024. Rydym hefyd yn asesu perfformiad Dŵr Cymru, y gallwch ei weld ar ein gwefan.

Nid yw metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol a ddefnyddir ar gyfer y 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf yng Nghymru a Lloegr yn berthnasol i Hafren Dyfrdwy am ei fod yn fach. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio themâu tebyg yn yr adroddiad hwn; er enghraifft, digwyddiadau llygredd a chydymffurfio â thrwyddedau.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fanylach yn ymwneud â Hafren Dyfrdwy yn yr Adroddiad Digwyddiad Llygredd a'r Adroddiadau data gollyngiadau gorlifoedd stormydd a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf 2025.

## Cynnwys

Cyflwyniad .... 1
Prif negeseuon ar berfformiad .... 2
Digwyddiadau llygredd .... 3
Digwyddiadau hunan-adrodd .... 4
Cydymffurfio â'r drwydded gollwng dŵr .... 5
Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng .... 6
Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff .... 7
Gorlifoedd storm a ganiateir .... 8
Adnoddau dŵr .... 10
Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr .... 10
Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr .... 10
Y mynegai cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw .... 10
Gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr .... 10
Gwaith rheoleiddio ehangach .... 11
Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol .... 11
Gorfodi .... 11
Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff .... 12
Slwtsh .... 12
Diogelwch cronfeydd dŵr .... 12
Asesiad monitro gweithredwyr .... 12
Camau rheoleiddio .... 13
Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2025 .... 15

# Prif negeseuon ar berfformiad

Yn 2024, dangosodd Hafren Dyfrdwy berfformiad cryf ar draws sawl dangosydd amgylcheddol allweddol:

- **Digwyddiadau llygredd difrifol:** Dim un digwyddiad wedi'i gofnodi yn y categori difrifol.
- **Cydymffurfio ag amodau trwyddedau gollwng dŵr rhifol:** Wedi'i gynnal ar 100%.
- **Y mynegai cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw:** Wedi cyflawni'r sgôr uchaf o 100.

Fodd bynnag, mae meysydd lle mae perfformiad wedi dirywio a lle bydd angen gwelliant wedi'i dargedu:

- **Digwyddiadau llygredd carthffosiaeth:** Wedi cynyddu o un yn 2023 i ddau yn 2024.
- **Digwyddiadau cyflenwi dŵr:** Wedi parhau ar dri, heb ddangos unrhyw welliant.

- **Cydymffurfio ag amodau trwydded gollwng dŵr disgrifiadol:** Wedi parhau ar 95%, gyda'r mater amlaf yn ymwneud ag ymarferoldeb monitro hyd digwyddiadau o ran gorlifoedd storm, y mae'n ofynnol iddynt weithredu am o leiaf 90% o'r amser.
- **Hunan-adrodd am ddigwyddiadau:** Wedi gostwng i 60%, sy'n dangos bod llai o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd yn rhagweithiol i'r rheoleiddiwr.

# Digwyddiadau llygredd

Fel y rheoleiddiwr amgylcheddol, rydym yn ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau llygredd, ac y mae rhai ohonynt yn deillio o asedau a rhwydweithiau cwmnïau dŵr. Rydym yn adrodd ar nifer y digwyddiadau a briodolir i bob cwmni dŵr er mwyn hyrwyddo tryloywder ac ysgogi gwelliant parhaus. Ein nod yw sicrhau gostyngiad parhaus mewn digwyddiadau llygredd, gyda'r uchelgais reoleiddiol y dylid dileu'r rhain yn llwyr. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr atal pob digwyddiad difrifol (Categori 1–2).

Rydym yn defnyddio pedwar categori i asesu effaith digwyddiadau llygredd:

- **Categori 1 Sylweddol:** Posibilrwydd o gael effaith fawr, ddifrifol, barhaus a/neu helaeth ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.

- **Categori 2 Arwyddocaol:** Posibilrwydd o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.


- **Categori 3 Bach:** Posibilrwydd o gael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.

- **Categori 4 Dim effaith:** Achos o ddiffyg cydymffurfio ar safle rheoledig lle nad oes modd rhagweld y bydd yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd, pobl, a/neu eiddo.

Dirywiodd perfformiad digwyddiadau llygredd Hafren Dyfrdwy yn 2024, gyda chyfanswm o bum digwyddiad llygredd Categori 3, sef cynnydd o un. Fodd bynnag, parhaodd y cwmni i beidio â chael unrhyw ddigwyddiad o lygredd difrifol.

Mae'r graff isod yn dangos bod digwyddiadau carthffosiaeth wedi cynyddu o un i ddau yn 2024. Roedd un oherwydd gorlif carthffos gyfun, a'r llall oherwydd carthffos fudr.

Parhaodd nifer y digwyddiadau llygredd o asedau cyflenwi dŵr yn dri. Roedd dau yn ymwneud â gweithfeydd trin dŵr. Roedd y trydydd o'r system dosbarthu dŵr.





## Digwyddiadau hunan-adrodd

Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr adrodd am o leiaf 80% o'u digwyddiadau llygredd i ni. Bydd hyn yn golygu y gallwn fod yn fwy hyderus fod y cwmni dŵr:

- yn deall ei asedau a'i rwydweithiau
- yn edrych yn barhaus am ffyrdd o wella sut y mae'n rhagweld digwyddiadau llygredd, gan gynnwys defnyddio ei ddata telemetreg ei hun i wella lefelau hunan-adrodd
- yn defnyddio ei ddata i nodi mannau problemus a thargedu lleoliadau risg uchel a mathau penodol o asedau
- yn rhoi sylw ac yn ymateb i ddigwyddiadau'n gyflym er mwyn stopio unrhyw effaith cyn gynted â phosibl

Mae perfformiad hunan-adrodd Hafren Dyfrdwy wedi gostwng i 60% (tri allan o bum digwyddiad wedi'u hunan-adrodd) ar ôl cyflawni 75% yn 2023. Gweler y graff isod.




Dylai eu perfformiad wedi bod yn gryfach, yn enwedig o ystyried bod un o'r digwyddiadau llygredd Categori 3 nad oedd wedi'i hunan-adrodd amdano wedi deillio o orlif carthffosiaeth gyfun. Gan fod gorlifoedd carthffosiaeth gyfun fel arfer wedi'u cyfarparu â thelemetreg, byddem yn disgwyl i ddigwyddiadau sy'n deillio o'r asedau hyn fod yn adnabyddadwy a hunan-adroddedig. Rydym yn annog y cwmni i archwilio i fentrau arfer da a ddefnyddir ar draws y diwydiant a'u mabwysiadu i wella a sefydlogi ei berfformiad hunan-adrodd.

# Cydymffurfio â'r drwydded gollwng dŵr

Rydym yn cyflwyno trwyddedau ar gyfer gollyngiadau dŵr, gan gynnwys gollyngiadau wedi'u trin o weithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr y cwmnïau dŵr. Mae'r trwyddedau yn gofyn i'r gollyngiad fodloni meini prawf penodol er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd dŵr yn dirywio. Mae cwmnïau dŵr yn hunan-fonitro eu gollyngiadau ac yn darparu data ar ein cyfer yr ydym yn eu hasesu am gydymffurfedd. Rydym wedi cynyddu ein gweithgareddau asesu cydymffurfedd, gan gynnwys arolygiadau ac archwiliadau o safleoedd, ac rydym yn disgwyl y bydd pob deiliad trwydded yn cydymffurfio â phob amod o'r drwydded.

Rydym yn defnyddio'r categorïau diffyg cydymffurfio canlynol o 1 i 4 pan fyddwn yn asesu cydymffurfedd ag amodau trwydded:

- **Categori 1 – Sylweddol:** Effaith andwyol neu ddifrod sylweddol, difrifol, parhaus a/neu eang ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu ar asedau, gwaith neu enw da CNC.
- **Categori 2 – Arwyddocaol:** Effaith andwyol neu ddifrod arwyddocaol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu ar asedau, gwaith neu enw da CNC.
- **Categori 3 – Bach:** Ychydig iawn o effaith andwyol neu ddifrod ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo, neu ar asedau, gwaith neu enw da CNC.

- **Categori 4 – Dim effaith:** Digwyddiad nad oedd yn effeithio o gwbl ar yr amgylchedd neu'r sefydliad.

Pan fyddwn yn categoreiddio achosion o ddiffyg cydymffurfio, rhaid inni ystyried yr effaith bosibl yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei ragweld yn rhesymol. Mae pob achos o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gofnodi ar Adroddiad Asesu Cydymffurfedd a'i gyhoeddi i ddeiliad y drwydded. Pan fo angen, gallwn osod camau gweithredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y safle'n cydymffurfio â'r drwydded eto, ac ystyried ein hopsiynau o ran gorfodi.

Ar gyfer eu gweithrediadau dŵr gwastraff, mae Hafren Dyfrdwy yn gweithredu cyfanswm o 50 o weithfeydd trin dŵr gwastraff. O'r rhain, mae gan 39 derfynau ansawdd rhifol ar eu 43 gollyngiad cyfunol. Mae gan yr 11 sy'n weddill drwyddedau disgrifiadol. Ar gyfer ei weithrediadau cyflenwi dŵr, mae cwmni Hafren Dyfrdwy yn rheoli chwech o weithfeydd trin dŵr. Mae gan bump o'r rhain derfynau ansawdd rhifol, ac mae gan dri safle gyfanswm llif dyddiol sy'n fwy nag 20 metr ciwbig y dydd. Mae gan y chweched safle drwydded ddisgrifiadol.

# Cydymffurfio â thrwyddedau gollwng

## Cydymffurfio ag amodau trwydded rhifol ansawdd dŵr

Gan ddefnyddio egwyddorion methodoleg yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol, rydym yn asesu perfformiad cydymffurfio rhifiadol y cwmni drwy edrych ar ganran y gollyngiadau a fethodd eu terfynau ansawdd rhifol. Felly, rydym yn edrych ar y 43 gollyngiad gwaith trin dŵr gwastraff rhifol a'r tri gollyngiad gwaith trin dŵr rhifol mwy o faint.

Yn 2024, nid oedd unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â thrwyddedau rhifol ar gyfer unrhyw un o'r 46 o ollyngiadau. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol iddynt gyflawni 100%.

| Blwyddyn | Canran sy'n cydymffurfio | Safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| **2020** | 100% | 0 |
| **2021** | 97.9% | 1 |
| **2022** | 97.8% | 1 |
| **2023** | 100% | 0 |
| **2024** | 100% | 0 |

## Cydymffurfio ag amodau disgrifiadol trwyddedau ar ansawdd dŵr

Mae amodau disgrifiadol yn ymwneud ag agweddau nad ydynt yn rhifol, megis cynnal a chadw, rheoli, ac adrodd. Yn gyffredinol, mae cydymffurfio ag amodau disgrifiadol mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd trin dŵr sydd â thrwyddedau rhifol a disgrifiadol yn 95% yn 2024. Nid oes unrhyw welliant cyffredinol wedi bod ers 2023.

| Blwyddyn | Canran sy'n cydymffurfio | Safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| **2020** | 96.7% | 2 |
| **2021** | 91.8% | 5 |
| **2022** | 98.2% | 1 |
| **2023** | 95.0% | 3 |

| Blwyddyn | Canran sy'n cydymffurfio | Safleoedd nad ydynt yn cydymffurfio |
|---|---|---|
| **2024** | 95.0% | 3 |

# Cydymffurfio ag amodau llif mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff

## Cydymffurfio ag amodau llif tywydd sych

Llif tywydd sych yw cyfaint dyddiol cyfartalog y dŵr gwastraff sy'n mynd i mewn i waith trin yn ystod cyfnodau sych, pan nad oes glawiad. Mae'n adlewyrchu llifoedd arferol o aelwydydd a busnesau. Mae llif tywydd sych yn bwysig ar gyfer cydymffurfio oherwydd bod llawer o drwyddedau gollwng yn seiliedig ar y lefel hon o lif. Os yw'r llif yn fwy na'r llif tywydd sych a ganiateir yn rheolaidd, gall fod yna arwydd o broblemau megis ymdreiddiad neu orlwytho, a all effeithio ar berfformiad triniaeth ac arwain at niwed amgylcheddol.

Darparodd Hafren Dyfrdwy ddata ynghylch llif tywydd sych ar gyfer 2023 yn unol â gofynion ei drwydded. Cafodd tri o weithfeydd trin dŵr gwastraff broblemau o ran data yn 2023, a bu'r cwmni'n gweithio i'w datrys. Yn 2024 ni chafodd unrhyw safleoedd broblemau o ran data.

Yn 2023, adroddwyd bod tri o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn mynd y tu hwnt i'r terfynau a ganiateir ar gyfer llif tywydd sych, gan arwain at y safleoedd yn gollwng mwy o garthion a driniwyd nag a ganiateir. Yn 2024, roedd pum safle wedi mynd y tu hwnt i derfynau'r drwydded llif tywydd sych. Mae'n ofynnol i'r cwmni gynnal ymchwiliadau ac adrodd am achos y gormodiant i ni a, lle y bo'n briodol, cwblhau camau adferol o fewn amserlen gytunedig.

## Cydymffurfio â llif trin llawn

Llif trin llawn yw'r gyfradd llif uchaf y mae gwaith trin wedi'i gynllunio i'w drin yn llawn cyn i lifoedd gormodol gael eu dargyfeirio, fel arfer yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae'n sicrhau bod dŵr gwastraff yn cael ei drin yn briodol cyn cael ei ollwng i'r amgylchedd. Mae cydymffurfio â llif trin llawn yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu i atal carthion heb eu trin neu wedi'u trin yn rhannol rhag mynd i mewn i'r amgylchedd dŵr, gan ddiogelu ansawdd dŵr ac iechyd y cyhoedd.

Mae Hafren Dyfrdwy yn parhau i ymchwilio'n rhagweithiol i unrhyw safleoedd y mae'n eu hystyried sydd mewn perygl o fethu'r terfynau llif trin llawn a ganiateir. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â llif trin llawn ar gyfer data 2023 a 2024.

## Cydymffurfio â'r cynllun ardystio monitro (MCERTS)

MCERTS yw ein cynllun ardystio monitro. Mae'n gosod safonau ar gyfer offer a systemau a ddefnyddir i fesur ac adrodd am ddata amgylcheddol, megis cyfraddau llif mewn gweithfeydd trin. Mae cydymffurfio â MCERTS yn sicrhau bod monitro llif yn gywir, yn

ddibynadwy, ac yn gyson â gofynion rheoleiddio. Mae hyn yn ein helpu i asesu a ydyw safleoedd yn gweithredu o fewn y terfynau a ganiateir, ac yn gwarchod yr amgylchedd rhag niwed posibl.

Roedd pob un o 32 safle Hafren Dyfrdwy yn cydymffurfio â gofynion ail-ardystio MCERTS yn 2023 a 2024.

# Gorlifoedd storm a ganiateir

## Asesiad cydymffurfio â thrwyddedau

Drwy ein gwaith ymateb i ddigwyddiadau ac asesu cydymffurfedd â thrwyddedau a gynhaliwyd yn 2024, gwelsom 12 achos o ddiffyg cydymffurfio mewn gorlifoedd storm a ganiateir (gorsafoedd pwmpio carthffosiaeth, gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, a gollyngiadau storm o weithfeydd trin dŵr gwastraff) am amryw o resymau.

Roedd wyth oherwydd bod asedau'n gweithredu islaw'r amser gweithredol gofynnol o 90% ar gyfer monitro hyd digwyddiadau. Rydym yn disgwyl i'r cwmni barhau i wella cyflawnrwydd a chywirdeb setiau data monitro hyd digwyddiad a sicrhau bod asedau'n gweithredu'n gyson am o leiaf 90% o'r amser.

Achoswyd dau orlif gan grynhoad o frasterau, olewau a seimiau o fewn y rhwydwaith carthffosiaeth. Digwyddodd un o'r rhain mewn ased heb sgrin, a oedd wedi dirywio oherwydd cyrydiad. Canfuwyd nad oedd y ddau ased yn cydymffurfio â'u hamodau trwydded. Mae Hafren Dyfrdwy wedi cael cyfarwyddiadau i weithredu mesurau adferol yn y safleoedd hyn i atal gollyngiadau pellach y gellir eu hosgoi.

## Monitro hyd digwyddiadau

Mae Hafren Dyfrdwy wedi gosod dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau i fonitro nifer a hyd gollyngiadau, ar eu holl orlifoedd storm a ganiateir. Mae hyn yn golygu bod dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau wedi'u gosod ar yr asedau canlynol:

- gorlifoedd storm ar y rhwydwaith carthffosydd (gorlifoedd carthffosiaeth gyfun)
- gorlifoedd storm o orsafoedd pwmpio
- gorlifoedd storm mewn gweithfeydd trin dŵr gwastraff

Yn yr adran hon, rydym yn rhannu data ar orlifoedd storm a ganiateir yn unig. Ar gyfer gorlifoedd storm sy'n gweithredu heb drwydded ar hyn o bryd, mae gennym raglen waith ar y gweill i ddod â nhw o fewn ein fframwaith rheoleiddio, pan fo hynny'n briodol. Mae rhagor o wybodaeth am orlifoedd storm ar gael ar ein gwefan: Gorlifoedd storm ac Adroddiadau data gollyngiadau gorlifoedd stormydd.

Mae gan gyfnodau anarferol o wlyb y potensial i arwain at gynnydd yn amlder a hyd gollyngiadau, tra bod tywydd sych yn cael yr effaith groes. Rydym yn gweithio ar ddull cadarn i nodi pryd y mae gollyngiadau'n digwydd mewn cyfnod o dywydd sych a fydd yn caniatáu inni asesu perfformiad gorlifoedd stormydd yn well.

Gan ddefnyddio dadansoddiad yn seiliedig ar gyfartaledd glawiad hirdymor yng Nghymru (1991–2020), roedd 2024 yn flwyddyn gyfartalog o ran glawiad.

| Blwyddyn | Glawiad Cymru |
|---|---|
| 2021 | Blwyddyn gyfartalog |
| 2022 | Blwyddyn sych |
| 2023 | Blwyddyn wlyb |
| 2024 | Blwyddyn gyfartalog |

## Data dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau yr adroddwyd amdanynt

Mae'r data a gyflwynir isod yn defnyddio crynodeb data dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau 2024, a gyflwynwyd gan y cwmni dŵr yn ei ffurflen reoleiddio flynyddol i ni.

Rhestrodd Hafren Dyfrdwy 40 o drwyddedau, gyda 50 o ollyngiadau gorlifoedd storm yn eu ffurflen yn 2024.

Yn 2024, bu 10 (20%) o ddyfeisiau monitro hyd digwyddiadau y cwmni dŵr ar waith am lai na 90% o'r flwyddyn, sydd islaw'r safon y cytunwyd arni yn y diwydiant. Rydym yn disgwyl i'r cwmni dŵr wella gweithrediad dyfeisiau monitro hyd digwyddiadau fel bod pob dyfais yn gweithredu am o leiaf 90% o'r amser cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn disgwyl i'r cwmni barhau i weithio i wella cyflawnrwydd a chywirdeb y data ar gyfer setiau data gorlif stormydd.

## Nifer y gollyngiadau

Cyfrifir nifer y gollyngiadau o orlifoedd storm gan ddefnyddio'r fethodoleg cyfrif blociau 12/24. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r un dull hwn, felly mae cysondeb ar draws cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr wrth gyfrif gollyngiadau gorlifoedd stormydd.

Mae data gollyngiadau 50 o orlifoedd storm a ganiateir gan Hafren Dyfrdwy yn dweud wrthym bod:

- 6% (3) heb ollwng o gwbl
- 14% (7) wedi gollwng rhwng 1 a 9 o weithiau
- 46% (23) wedi gollwng rhwng 10 a 39 o weithiau
- 26% (13) wedi gollwng rhwng 40 a 99 o weithiau
- 8% (4) wedi gollwng rhwng 100 a 300 o weithiau
- Nid oedd un ohonynt wedi gollwng dros 300 o weithiau

## Hyd y gollyngiadau

Mae data hyd y gollyngiadau o 50 o orlifoedd storm a ganiateir gan Hafren Dyfrdwy yn dweud wrthym bod:

- 6% (3) wedi gweld gollyngiadau yn para 0 awr
- 34% (17) wedi gweld gollyngiadau yn para am fwy na 0 awr ond yn llai na 50 awr

- 30% (15) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 50 awr ond yn llai na 250 awr
- 14% (7) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 250 awr ond yn llai na 500 awr
- 4% (2) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 500 awr ond yn llai na 1,000 awr
- 12% (6) wedi gweld gollyngiadau yn para am o leiaf 1,000 awr ond yn llai na 5,000 awr
- Nid oedd un ohonynt wedi gollwng am dros 5,000 awr

# Adnoddau dŵr

## Cydymffurfio â thrwyddedau adnoddau dŵr

Yn 2024 nid oedd unrhyw asesiadau o gydymffurfedd wedi'u cynllunio ar gyfer trwyddedau adnoddau dŵr Hafren Dyfrdwy.

## Cynlluniau sychder a chynlluniau rheoli adnoddau dŵr

Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd i gynnal cyflenwadau dŵr yn eu hardal, heb niweidio'r amgylchedd nac effeithio ar anghenion defnyddwyr dŵr eraill. Mae gofyniad statudol i gwmnïau dŵr baratoi, cynnal, a chyhoeddi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diweddaraf yn 2024. Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o Gynllun Sychder 2025 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ddechrau 2025. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y cwmni ei ddatganiad ymateb i'r sylwadau a gafodd yn ystod yr ymgynghoriad. Cyhoeddir y cynlluniau bob pum mlynedd. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr Hafren Dyfrdwy, gweler ei wefan:

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr 2024
- Cynllun Sychder 2025 (drafft)

Edrychwch hefyd ar ein tudalennau gwe am ragor o wybodaeth ar y pynciau hyn:

- Cynllunio adnoddau dŵr
- Sychder
- Canllawiau ar gynlluniau sychder

## Y mynegai cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw

Mae metrig y mynegai cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw yn mesur sut mae'r cydbwysedd gwirioneddol rhwng y cyflenwad a'r galw wedi perfformio o'i gymharu â'r hyn a nodir yng Nghynllun Rheoli Adnoddau Dŵr cwmni dŵr. Rydym yn disgwyl i gwmnïau gael sgôr y mynegai cydbwysedd rhwng cyflenwad a galw o 100. Cyflawnodd Hafren Dyfrdwy hyn yn 2024–2025.

## Gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr

Mae cwmnïau dŵr yn cyflwyno amrywiaeth eang o ddata i ni ac Ofwat, sy'n cynnwys cyfraddau gollyngiadau a'r defnydd o ddŵr. Dylai'r cyfraddau diwygiedig o ran gollyngiadau, a'r wybodaeth am y defnydd o ddŵr ar gyfer 2024–2025 fod ar gael yn fuan yma: https://www.discoverwater.co.uk/cy/.

# Gwaith rheoleiddio ehangach

## Cyflawni Cynllun Rheoli Asedau'r Rhaglen Amgylchedd Genedlaethol

Y flwyddyn 2024 oedd y bumed flwyddyn, a'r flwyddyn olaf yng Nghynllun Rheoli Asedau 7. Ar ôl newidiadau y cytunwyd arnynt, cyflawnodd Hafren Dyfrdwy 34 o gynlluniau dros y cyfnod o bum mlynedd, gan gynnwys 10 cynllun gwella, 14 ymchwiliad, a 10 cynllun monitro.

Gan edrych ymlaen at Gynllun Rheoli Asedau 8, 2025-2030, mae Hafren Dyfrdwy wedi ymrwymo i welliannau gwerth cyfanswm o £60 miliwn. Mae hyn yn cynnwys gwaith adfer mawndiroedd ar gyfer dalgylchoedd dŵr yfed, gwaith lleihau gorlifoedd stormydd, cynlluniau ffosfforws, gwaith i ddiweddaru tanciau carthion, gwaith cynnal a chadw cronfeydd dŵr, a diogelwch a gwytnwch ymyriadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda Hafren Dyfrdwy i sicrhau bod rhaglen Cynllun Rheoli Asedau 8 yn cael ei chyflawni.

Mae rhagor o wybodaeth am y buddsoddiad arfaethedig gan y cwmni dŵr ar gael yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / BETA: Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru](#).

## Gorfodi

Mae ein polisi gorfodi a sancsiynau yn sicrhau bod troseddau amgylcheddol yn cael eu trin yn deg, yn gadarn, ac yn gymesur er mwyn atal niwed pellach. Mae camau gorfodi yn cael eu harwain gan ein *hopsiynau ymateb i droseddau*, sy'n cynnwys:

- cyngor ac arweiniad
- rhybuddion ffurfiol
- sancsiynau sifil
- erlyniad

Mae'r dewis o ran ymateb yn dibynnu ar ddifrifoldeb y drosedd, parodrwydd y troseddwr i gydymffurfio, a budd y cyhoedd.

Nod ein hymyriadau gorfodi yw:

- rhoi'r gorau i droseddau parhaus
- adfer niwed amgylcheddol
- atal achosion o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol
- hyrwyddo cydymffurfedd barhaus

Gellir datrys troseddau bach neu anfwriadol drwy addysg neu gamau gwirfoddol. Ystyrir erlyniad fel dewis olaf, a dim ond pan fydd dulliau gorfodi eraill wedi profi'n aneffeithiol, neu pan fo'r drosedd yn arbennig o ddifrifol y caiff ei ddilyn. Noder y gall ymchwiliadau cymhleth gymryd amser, ac yn aml caiff deilliannau eu hadrodd amdanynt yn y blynyddoedd dilynol.

Yn 2024, roedd yr holl gamau gorfodi a gymerwyd yn erbyn Hafren Dyfrdwy wedi'u cyfyngu i rybuddion neu gamau gorfodi is, oherwydd natur y troseddau.

## Cydymffurfio â thrwyddedau gwastraff

Gall cwmnïau dŵr weithredu amrywiaeth o weithgareddau gwastraff yn amrywio o drin biowastraff, tirlenwi, hylosgi bio-nwy, llosgi slwtsh, a gorsafoedd trosglwyddo.

Nid oes gan Hafren Dyfrdwy unrhyw drwyddedau gwastraff.

## Slwtsh

Mae Hafren Dyfrdwy yn gynhyrchydd slwtsh gweddilliol o'u gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Y cyfanswm a gynhyrchwyd ganddo ar gyfer 2024 oedd 950 tunnell o solidau sych.

Fodd bynnag, nid yw'n dosbarthu slwtsh fel y'i diffinnir o dan y metrig slwtsh boddhaol. Derbynnir hyn oherwydd bod slwtsh yn cael ei fasnachu rhwng y cwmnïau dŵr. Mae cwmni Hafren Dyfrdwy yn masnachu ei slwtsh i gwmni dŵr arall, ac o dan fetrig slwtsh y cwmni dŵr hwnnw y caiff y defnydd boddhaol ei adrodd amdano.

## Diogelwch cronfeydd dŵr

Mae Hafren Dyfrdwy yn rheoli 15 o gyforgronfeydd dŵr mawr cofrestredig; mae 13 ohonynt wedi'u dynodi'n "gronfeydd dŵr risg uchel". Cyforgronfeydd dŵr mawr yw cronfeydd dŵr risg uchel, a ddynodwyd gennym ni, lle credwn y gallai bywyd dynol fod mewn perygl pe bai argae yn methu, gan achosi dŵr i gael ei rhyddhau heb ei reoli.

Mae cydymffurfedd y cwmni yn uchel. Fe wnaethon ni gofnodi cydymffurfedd 100% â dyletswyddau adeiladu, archwilio, goruchwylio, cynnal a chadw a chadw cofnodion cronfeydd dŵr a osodwyd gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Mae gan Hafren Dyfrdwy ymrwymiad corfforaethol i'w bwrdd i gynnal y lefel hon o gydymffurfedd.

Mae Hafren Dyfrdwy yn rhannu ei adolygiad blynyddol ei hun o argaeau a chronfeydd dŵr â ni fel mater o dryloywder a diwydrwydd, ac rydym yn croesawu hynny.

## Asesiad monitro gweithredwyr

Rydym yn cynnal yr archwiliadau hyn o drefniadau hunan-fonitro gweithredwyr i wirio bod cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cyflawni'r monitro gofynnol yn unol â'r safonau monitro yn ein trwyddedau a thrwy MCERTS. Yr asesiad monitro gweithredwyr yw'r offeryn systematig a ddefnyddiwn i gynnal yr archwiliadau hyn er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella, a hyrwyddo arfer gorau.

Cynhaliwyd archwiliad asesiad monitro gweithredwyr ar 9 Chwefror 2024. Canolbwyntiodd yr archwiliad hwn ar ddata cydymffurfedd rhifol a disgrifiadol ar gyfer cyfnodau adrodd 2022–2023. Cyflawnodd y cwmni sgoriau yn amrywio o 'da' i 'rhagorol' ar draws yr holl elfennau a aseswyd. Nodwyd mân addasiadau gweithdrefnol, ac mae camau gweithredu cyfatebol wedi'u gosod. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu yn ystod archwiliad asesiad monitro gweithredwyr yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn effeithiol.

Nid oes amserlen sefydlog ar gyfer cynnal archwiliadau asesiad monitro gweithredwyr. Rydym yn eu cynnal yn seiliedig ar ein hasesiad o risg a blaenoriaethau gweithredol. Er nad oes gennym un wedi'i drefnu ar gyfer 2025 ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu cynnal

archwiliad asesiad monitro gweithredwyr yn y dyfodol agos, yn amodol ar ein hadolygiad parhaus o flaenoriaethau.

# Camau rheoleiddio

Rydym wedi ymrwymo i sbarduno gwelliannau ym mherfformiad cwmnïau dŵr drwy fframwaith rheoleiddio cadarn ac esblygol. Mae ein camau gweithredu yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

## 1. Cynlluniau Lleihau Digwyddiadau Llygredd – gofyniad cyfreithiol newydd

Mae'r Ddeddf Dŵr (Mesurau Arbennig) wedi mewnosod darpariaethau yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i bob cwmni dŵr gyhoeddi cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd ac adroddiadau gweithredu. Rhaid i gynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd esbonio'n glir sut y bydd cwmnïau'n lleihau llygredd o'u holl asedau, gan gynnwys gorlifoedd stormydd. Bydd adroddiadau gweithredu yn adolygiad ôl-weithredol o ba mor llwyddiannus y gweithredwyd y mesurau lleihau digwyddiadau.

- Rydym wrthi'n datblygu canllawiau sy'n disgrifio'r cynnwys yr ydym yn ei ddisgwyl mewn cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd ac adroddiad gweithredu, i'w cyhoeddi erbyn diwedd 2025.
- Rhaid i gynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd fod ar waith erbyn Ebrill 2026.
- Byddwn yn gwirio bod cynlluniau lleihau digwyddiadau llygredd wedi'u cyhoeddi ac yn adolygu eu cynnwys.

## 2. Cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff

Rydym yn gweithio tuag at wneud cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff yn statudol yng Nghymru, gan eu hymgorffori mewn strategaethau cynllunio a buddsoddi hirdymor.

- Rhaid i gynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff fod yn uchelgeisiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd â nodau hinsoddol ac amgylcheddol.
- Byddant yn cefnogi cynllunio strategol dros gyfnod o 25 mlynedd, gan fynd i'r afael â heriau megis twf poblogaeth, newid hinsawdd, a gwytnwch seilwaith.
- Byddwn yn asesu cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn effeithiol.

## 3. Cyflawni buddsoddiad Cynllun Rheoli Asedau 8 a blaenoriaethau Adolygiad Prisiau 24

Mae'n ofynnol i gwmnïau dŵr gyflawni eu hymrwymiadau buddsoddi yn Cynllun Rheoli Asedau 8 (2025–2030), yn unol â thargedau perfformiad a osodwyd drwy Adolygiad Prisiau 24, dan arweiniad Ofwat.

- Mae blaenoriaethau rheoleiddio yn cynnwys lleihau llygredd, gwella ansawdd dŵr, gwella gwytnwch hinsawdd, a darparu gwasanaethau gwell.

- Byddwn yn dwyn cwmnïau i gyfrif o ran cyflawni amserol a thryloyw ac yn sicrhau bod buddsoddiadau'n arwain at welliannau amgylcheddol pendant.

## 4. Cynllun cydymffurfio â thrwyddedau a gwasanaeth rheoleiddio

Rydym yn cynyddu ein ffocws ar fonitro cydymffurfedd gollyngiadau a ganiateir drwy ein cynllun gwasanaeth rheoleiddio, gyda chymorth adnoddau gwell o 2025.

- Mae cryfhau cydymffurfedd â thrwyddedau yn hanfodol i atal digwyddiadau llygredd.
- Byddwn yn cynnal asesiadau mwy aml a thrylwyr i sicrhau bod cwmnïau'n bodloni amodau'r drwydded.

## 5. Newidiadau i'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol

Byddwn yn gweithredu methodoleg ddiwygiedig yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol ar gyfer 2026–2030. Er na fydd hyn yn berthnasol yn ffurfiol i Hafren Dyfrdwy, byddwn yn defnyddio themâu tebyg i adrodd am ei berfformiad.

- Bydd hyn yn cynnwys meysydd ffocws ychwanegol i wella craffu ac atebolrwydd.

## 6. Ymateb i ddigwyddiadau yn seiliedig ar risg

Rydym yn newid i ddull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau llygredd.

- Bydd ymatebion yn cael eu llywio gan risg amgylcheddol a gwybodaeth, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio lle mae angen ymyrraeth fwyaf.
- Ni fydd pob adroddiad yn cael camau gweithredu ar unwaith; efallai y bydd rhai yn cael eu datrys drwy weithgarwch rheoleiddio neu orfodi arferol.

## 7. Rheoleiddio cydweithredol a gwella'r sector

Rydym yn cydweithio'n agos ag Ofwat a phartneriaid eraill i sbarduno gwelliannau ledled y sector.

- Mae hyn yn cynnwys lleihau digwyddiadau llygredd a hyrwyddo arfer gorau ar draws y diwydiant.
- Byddwn yn parhau i ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif ar bob lefel, o weithrediadau rheng flaen i arweinyddiaeth uwch.

## 8. Strategaeth data a gallu dadansoddol

Rydym yn gwella ein systemau data drwy ein platfform i gwsmeriaid a'n strategaeth technoleg gwybodaeth ar gyfer 2030.

- Rydym yn archwilio offer i wneud y mwyaf o alluedd dadansoddi data, gan gydweithio â rheoleiddwyr eraill i fabwysiadu arferion gorau.
- Bydd data gwell yn cynorthwyo'r gwaith o reoleiddio a monitro cydymffurfedd yn fwy effeithiol.

# Disgwyliadau perfformiad ar gyfer 2025

Yn 2025, rydym yn disgwyl y bydd Hafren Dyfrdwy yn gwneud y canlynol:

- Parhau i berfformio'n gryf o safbwynt digwyddiadau llygredd difrifol, heb gael unrhyw ddigwyddiadau llygredd difrifol
- Parhau i gyflawni cydymffurfedd 100% â therfynau rhifol gollwng dŵr
- Cyflawni cynlluniau gwella'r Cynllun Rheoli Asedau yn unol â'r terfynau amser y cytunwyd arnynt

Er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol ymhellach, dylai Hafren Dyfrdwy flaenoriaethu'r canlynol:

- Lleihau cyfanswm nifer y digwyddiadau llygredd
- Cyflawni hunan-adrodd 100% o ddigwyddiadau llygredd, yn enwedig lle mae telemetreg ar gael (e.e. gorlifoedd carthffosiaeth gyfun)
- Ymdrechu i gydymffurfio 100% â safonau amodau disgrifiadol, gyda ffocws penodol ar gyflawni o leiaf 90% o amser gweithredol monitro hyd digwyddiadau ar gyfer gorlifoedd storm